

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 30AIN O ORFFENNAF 2018 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams, Geraint Jones, Philip Williams, Jill Evans, Iwan Jones, Arwel Davies, Hywel Davies a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Bari Evans, Falmai Evans, Stanley Williams ar Gynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Fehefin 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Llŷr Gruffydd, Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru, yn diolch i'r Cyngor am sylwadau 'r toriad yr "School Beat" o'r gyllideb yr Heddlu i'r Ysgolion. Mae Mr Gruffydd yn cefnogi'r pryderon y Cyngor ac wedi codi'r pwnc gyda'r swyddogion perthnasol yn y Cynulliad i'r Heddlu Gogledd Cymru beidio â chwtdogi'r gwasanaeth "School Beat" o'r Ysgolion yn Ogledd Cymru.

B. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl adroddiad ymatebol i'r materion ffyrdd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych.

C. Derbyniwyd adroddiad fod y Cyngorwyr Arwel Davies a Bari Evans wedi cael cyfarfod safle gyda cwmni Jones Brothers o Ruthun ynglŷn ar gerbydau yn gôr cyflym i'r safle fferm wynt yng Nghoedwigaeth Clocaenog. Nodwyd y cwmni pryderon y Cyngor a byddant yn cael gair gyda'r triwyr y cerbydau. Derbyniwyd adroddiad fod cerbydau Scottish Power yn gôr cyflym i'r safle hefyd a phenderfynwyd y Clerc tynnu sylw Scottish Power at y broblem. Derbyniwyd adroddiad hefyd fod Cwmni Jones Brothers yn fodlon helpu'r Gymuned gyda chymorth prosiectau lleol. Diolchwyd i'r Cynghorydd Arwel Davies am yr adroddiad.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc £12,115.00.

B. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y Cyngor yn Ysgol Pant Pastynog, Prion £20.00.

2. Un Llais Cymru Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Sadwrn 29ain Medi 2018 i'r Cynghorwyr Philip Williams a Hywel Davies £170.00.

6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi strwythur seremoni ffrâm dderw yn Springs Spa, Llanrhaeadr Hall.

2. Cadw llinell drydan uwchben yn Fferm Crwcwd, Llanrhaeadr.

3. Trosi Ysgubor a'r Hendy i ffurfio 2 bythynnod gwyliau a gosod tanc septig newydd yn Bwlch, Prion.

B. Nid oedd gan y Cyngorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi estyniad i'r adeilad storio porthiant yn Brŷn Bella, Saron.

2. Newid defnydd tir trwy leoli 2 rif tai crwn fframiog pren ar gyfer llety gwyliau ar dir Y Laundry, Llanrhaeadr Hall.

7. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Cynghorydd Sir Ddinbych ddim yn bresennol.

9. MATERION BRYD O DAN ADARAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar safle Maes Carafanau Cae'r Mynydd, Saron:-

1. Sŵn o'r safle yn hwyr yn y nos.
2. Arogl o'r carthffosydd.

B. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Mynediad newydd heb ganiatâd ar gae amaethyddol i'r ffordd Ystrad i Brion.
2. Angen arwyddion "Dim Cwm" i'r Cae Chwarae Ysgol Pant Pastynog, Prion.
3. Ffordd rhwng Fferm y Coleg a Pen-y-Gerddi, Peniel eisiau eu trwsio.
4. Dau gwli wedi tagu wrth y Lodge yn Llanrhaeadr.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 24ain o Fedi 2018 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.